

Cylchlythyr Rhif: 07/12



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Canllawiau

Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2012

Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012

Y Gynulleidfa Prif Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Cynllunio Lleol; Busnesau; Asiantaethau'r Llywodraeth; Grwpiau Eraill yn y Sector Cyhoeddus; Cyrff Proffesiynol a Grwpiau Buddiant; Grwpiau Gwirfoddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Trosolwg Yn y cylchlythyr a'r cyfarwyddyd hyn nodir gofynion newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio rhai ceisiadau cynllunio penodol at Weinidogion Cymru fel bod modd iddynt benderfynu a ydynt am alw'r cais i mewn er mwyn iddynt hwy ddod i benderfyniad yn ei gylch.

Camau i'w cymryd Sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymwybodol bod y canlynol yn berthnasol o 30 Gorffennaf 2012 ymlaen, sef:

1. Bod Cylchlythyr 07/12, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfeirio gwahanol fathau o geisiadau cynllunio at Weinidogion Cymru, yn dod i rym;
2. Bod Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 39/92, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfeirio ceisiadau cynllunio at Weinidogion Cymru, wedi'i ddiddymu;
3. Bod Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/93, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfeirio gwahanol fathau o geisiadau cynllunio sy'n ymwneud â siopau at Weinidogion Cymru, wedi'i ddiddymu;
4. Bod rhan o baragraff 52 Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau (2004) Polisi Cynlluniau Mwynau (Cymru) wedi'i ddiddymu.

Mae'r cylchlythyr a'r cyfarwyddyd hyn yn ei gwneud yn ofynnol cyfeirio ceisiadau cynllunio y mae'r meini prawf 'Datblygiad i'w Hysbysu' yn berthnasol iddynt, lle nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu eu gwrthod.

Rhagor o Wybodaeth Cangen Penderfyniadau
Yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3878
E-bost: planning.division@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/nafw/?skip=1&lang=cy>

Dogfennau cysylltiedig **Adolygiad o Gyfarwyddiadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol atgyfeirio Ceisiadau Cynllunio at Weinidogion Cymru.**
Dogfen ymgynghori (2011) - ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/planning/reviewofdirections/?skip=1&lang=cy&status=closed>

Adolygiad o Gyfarwyddiadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol atgyfeirio Ceisiadau Cynllunio at Weinidogion Cymru.

Crynodeb o ymatebion (2012) - ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/planning/reviewofdirections/?skip=1&lang=cy&status=closed>

Cynnwys

Cyflwyniad	paragraff 1.
Cyd-destun y Cyfarwyddyd Newydd	paragraff 3.
Cychwyn ac Effaith	paragraff 6.
Y Cyfarwyddyd	paragraff 9.
Pwrpas a Chwmpas	paragraff 10.
Gofynion Hysbysu Newydd - 'Datblygiad i'w Hysbysu'	paragraff 11.
i) Datblygiad mewn Ardal lle ceir Perygl o Lifogydd	paragraff 12.
ii) Datblygiad Preswyl Sylweddol	paragraff 16.
iii) Datblygiad Mwynau	paragraff 19.
iv) Datblygiad Gwastraff	paragraff 21.
v) Datblygiad Agregau mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol	paragraff 23.
Tynnu Gofynion 'Cais Gwyro'	paragraff 25.
Cyflwyno Gwybodaeth i Weinidogion Cymru.	paragraff 28.
Cyfngu ar Roi Caniatâd Cynllunio	paragraff 30.
Monitro ac Adolygu	paragraff 32.

Atodiad 1 - Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012

Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012

CYFLWYNIAD

1. Mae Adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfeirio ceisiadau am ganiatâd cynllunio, neu am gymeradwyaeth unrhyw awdurdod cynllunio lleol sy'n angenrheidiol dan orchymyn datblygu, atynt hwy yn hytrach na'u bod yn cael eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol.
2. Mae Erthygl 14(1) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i awdurdodau cynllunio lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori ag unigolion penodol cyn rhoi caniatâd cynllunio i rai datblygiadau penodol. Mae Erthygl 18(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar roi caniatâd cynllunio yng nghyswllt datblygiad penodol – naill ai am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodol. Mae'r cylchlythyr hwn yn dirymu rhai cylchlythyrau sy'n cynnwys cyfarwyddiadau sydd ar waith ar hyn o bryd a rhan o baragraff 52 Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfeirio rhai ceisiadau cynllunio penodol at Weinidogion Cymru. Nodwyd cyfarwyddyd newydd yn Atodiad 1, sy'n pennu meini prawf newydd ar gyfer cyfeirio ceisiadau. Bwriad y cylchlythyr hwn yw sicrhau mai dim ond pan fo angen yr ymgynghorir â Gweinidogion Cymru ac y gwneir pob penderfyniad ar y lefel briodol.

CYD-DESTUN Y CYFARWYDDYD NEWYDD

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o gyfarwyddiadau oedd yn seiliedig ar y canlynol:
 - adolygiad o ddata yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a gyfeiriwyd dan gyfarwyddiadau sydd mewn bod ar hyn o bryd ac a alwyd i mewn ers 2005.
 - ymatebion i'r papur ymgynghori 'Adolygiad o Gyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol Atgyfeirio Ceisiadau Cynllunio at Weinidogion Cymru' – WAG10-11529 (2011).
4. Trwy gyfrwng yr adolygiad, canfuwyd mai, ar gyfartaledd, dim ond 15 y cant o'r ceisiadau a gyfeirir at Weinidogion Cymru a elwir i mewn. O ganlyniad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr holl gyfarwyddiadau oedd mewn bod ac a adolygwyd yn briodol bellach, o gofio'r newidiadau a fu yn y system gynllunio yng Nghymru. Cadarnhaodd y broses adolygu ac ymgynghori hefyd bod y ffordd yr oedd awdurdodau cynllunio lleol yn dehongli'r gofynion oedd mewn bod hefyd yn amrywio. O ganlyniad, roedd cyfarwyddiadau yn cael eu gweithredu'n anghyson ar draws Cymru.
5. Mae'r cyfarwyddyd newydd yn cyflwyno meini prawf diwygiedig y mae angen i awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio i bennu a ddylid cyfeirio ceisiadau cynllunio at Weinidogion Cymru ai peidio. Mae'n nodi'r math o ddatblygiad a allai godi materion sydd o bwys ehangach na phwys lleol ac y gallai Gweinidogion Cymru eu galw i mewn, a dyna yw pwrpas y broses hysbysu.

CYCHWYN AC EFFAITH

6. O 30 Gorffennaf 2012 ymlaen, bydd y canllawiau sydd wedi'u nodi yn y cylchlythyr hwn a'r cyfarwyddyd yn Atodiad 1 yn disodli darpariaethau'r cyfarwyddiadau canlynol, a gaiff eu diddymu, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru:

- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 39/92: Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992, Cyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac Ymgynghori) 1992
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/93: Cyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Siopau) (Cymru a Lloegr) (Rhif 2) 1993.
- Rhan o baragraff 52 Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Aregiadau (2004) Polisi Cynlluniau Mwynau (Cymru)

Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru gael ei hysbysu am eithriadau o'r fath i roi'r cyfle i ystyried a yw'n angenrheidiol galw'r cynnig i mewn er mwyn gwneud penderfyniad yn ei gylch.

7. Nid oes bwriad newid unrhyw rai o'r cyfarwyddiadau sy'n weddill, gan gynnwys:

- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/98: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru:
- Cylchlythyr ar y Cyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, yr Adran Drafnidiaeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru 1/03: Diogelu Meysydd Glanio, Safleoedd Technegol ac Ardaloedd Storio Milwrol: Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Meysydd Glanio wedi'u Diogelu, Safleoedd Technegol ac Ardaloedd Storio Milwrol) 2002; na
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 36/2004 a Chylchlythyr sy'n cael ei Gylchredeg 06-04 dyddiedig 4 Awst 2004: Rheoli Datblygiadau mewn Ardaloedd Diogelwch Cyhoeddus Meysydd Awyr.

8. Mae'r cylchlythyr a'r cyfarwyddyd yn Atodiad 1 yn berthnasol i Gymru yn unig.

Y CYFARWYDDYD

9. Nid yw'r cyfarwyddyd yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru dan adran 77 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i roi cyfarwyddyd y dylid galw cais cynllunio penodol i mewn er penderfyniad ganddynt hwy, pa un a yw'r cyfarwyddyd newydd yn berthnasol i'r cais dan sylw ai peidio, o gofio eu polisi ar alw i mewn.

PWRPAS A CHWMPAS

10. Mae'r cyfarwyddyd newydd yn egluro'r trefniadau a'r meini prawf ar gyfer ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau. Pwrpas y cyfarwyddyd yw rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ystyried a ydynt am arfer eu pwerau galw i mewn dan adran 77. Effaith y cyfarwyddyd yw ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio unrhyw gais sy'n dod dan baragraff 3 y cyfarwyddyd, nad yw'r awdurdod yn bwriadu gwrthod rhoi caniatâd cynllunio mewn perthynas ag ef, at Weinidogion

Cymru. Mae'n ofynnol anfon ceisiadau i'r swyddfa briodol yn Llywodraeth Cymru, yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 5 y cyfarwyddyd.

GOFYNION HYSBYSU NEWYDD – 'DATBLYGIAD I'W HYSBYSU'

11. Mae'r cyfarwyddyd yn cyflwyno gofyniad hysbysu newydd, sef bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio ceisiadau y maent yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio iddynt yng nghyswllt rhai mathau penodol o ddatblygiadau. Gelwir datblygiadau o'r fath yn 'ddatblygiadau i'w hysbysu' ac mae pum categori ohonynt, sef:

i Datblygiad mewn Ardal lle ceir Perygl o Lifogydd

12. Mae hwn yn ofyniad newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio ceisiadau am ddatblygiad gwasanaethau brys neu ddatblygiad bregus iawn, lle mae'r tir y bwriedir lleoli'r datblygiad arno i gyd o fewn parth perygl o lifogydd C2, a ddangosir ar y map cyngor datblygu. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod datblygu safleoedd nad ydynt ond yn rhannol o fewn parth perygl o lifogydd C2 yn dderbyniol. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd yn cynghori mai mater i'r awdurdod cynllunio yw barnu a ellir cyfiawnhau datblygiad o'r fath mewn achosion o'r fath.

13. Mewn achosion sy'n cynnwys datblygiad preswyl, y trothwy gofynnol o ran hysbysu yw 10 annedd neu fwy, gan gynnwys fflatiau. Unwaith eto, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod datblygiad sy'n cynnwys llai na 10 annedd yn dderbyniol. Mae'r cyngor polisi cyfredol yn Nodyn Cyngor Technegol 15 yn cynghori yn erbyn caniatáu datblygiad bregus o'r fath ym mharth perygl o lifogydd C2.

14. Mae'r mathau o ddatblygiadau sydd wedi'u rhestru yn y cyfarwyddyd ar gyfer 'gwasanaethau brys' a 'datblygiad bregus iawn', yn seiliedig ar y rhai sydd wedi'u nodi yn Ffigur 2 Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004). Felly, bydd awdurdodau cynllunio lleol ac ymarferwyr cynllunio eisoes yn gyfarwydd â nhw. Yng nghyswllt 'datblygiad gwasanaethau brys', mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cyfeirio at gyfleusterau y mae angen iddynt fod ar waith ac ar gael bob amser. Felly, fe allai gynnwys datblygiadau eraill sy'n wahanol i'r rhai a nodwyd yn Ffigur 2.

15. Yng nghyswllt 'datblygiad bregus iawn', mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn cyfeirio at ddatblygiad lle mae gallu trigolion i benderfynu a ydynt yn dymuno derbyn y risgiau i fywyd ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd, neu i ymdopi â chanlyniadau risg o'r fath, yn gyfyngedig. Bwriadwyd y cyfarwyddyd i gynnwys pob datblygiad gwasanaethau brys a bregus iawn felly ni ddylid trin y rhestr yn y cyfarwyddyd fel rhestr hollgynhwysfawr. Mae'r cyfeiriad at 'map cyngor datblygu' sydd i'w weld dan 'ardal lle ceir perygl o lifogydd' yn cyfeirio at y map cyngor datblygu diweddaraf i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Darperir y cyfarwyddyd diweddaraf yno.

ii Datblygiad Preswyl Sylweddol

16. Mae'r categori hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio ceisiadau y maent yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio iddynt sy'n ymwneud â datblygiadau preswyl sy'n cynnwys mwy na 150 uned breswyl, neu ddatblygiadau preswyl ar fwy na 6 hectar o dir, nad ydynt yn cydymffurfio ag un ddarpariaeth neu fwy o'r cynllun datblygu sydd mewn grym.

17. Mae'r ddarpariaeth hon yn debyg i'r un sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 Cylchlythyr 39/92. Mae'r cylchlythyr hwnnw hefyd yn cynnwys gofyniad i gyfeirio 'unrhyw ddatblygiad arall' a fyddai'n 'cael effaith niweidiol sylweddol ar weithrediad polisiau a chynigion y cynllun datblygu'. O ganlyniad, roedd rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi cymryd bod hwn yn cynnwys mân gynigion preswyl ac wedi cyfeirio'r rhain hefyd at Weinidogion Cymru.
18. Nid yw'r cyfarwyddyd newydd yn cynnwys gofyniad i gyfeirio 'unrhyw ddatblygiad arall' nad yw'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu. Felly nid oes gofyniad i gyfeirio unrhyw gynig preswyl, oni bai ei fod yn cynnwys mwy na 150 annedd neu'n ymwneud â datblygiad preswyl ar fwy na 6 hectar o dir.

iii) Datblygiad Mwynau

19. Mae hwn yn ofyniad newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio ceisiadau y maent yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio iddynt sy'n ymwneud â chloddio a gweithio mwynau ac sydd ddim yn cydymffurfio ag un neu fwy o ddarpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym.
20. Mae'r cyfarwyddyd yn gyfyngedig i ddatblygiad mewn safle newydd neu mewn estyniad i safle sy'n bodoli eisoes. Felly, nid oes gofyniad i gyfeirio mân ddatblygiadau neu geisiadau i amrywio amodau caniatadau sy'n bodoli eisoes y gellir eu gwneud dan Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

iv) Datblygiad Gwastraff

21. Mae hwn yn ofyniad newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyfeirio ceisiadau am ddatblygiadau y maent yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio iddynt sy'n ymwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl â thipio gwastraff ar dir neu i mewn i dir, a lle nad yw'r datblygiad dan sylw yn cydymffurfio ag un neu fwy o ddarpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym.
22. Cyfyngwyd ar y cyfarwyddyd i osgoi cyfeirio mân ddatblygiadau gwastraff eraill.

v) Datblygiad Agregau mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

23. Ar hyn o bryd, mae'r gofyniad i gyfeirio cynigion ar gyfer echdynnu agregau ar safleoedd newydd neu ar estyniadau i safleoedd sy'n bodoli eisoes mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'i gynnwys yn rhan olaf paragraff 52 Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau (Mawrth 2004).
24. Pwrpas ymgorffori'r gofyniad hwn yn y cyfarwyddyd newydd yw helpu gyda'r gwaith o gyfnerthu cyfarwyddiadau a symleiddio'r system gyfeirio ceisiadau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

TYNNU GOFYNION 'CAIS GWYRO'

25. Trwy ddiddymu'r cyfarwyddyd yng Nghylchlythyr 39/92, mae'r cyfarwyddyd newydd yn tynnu'r gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio 'ceisiadau gwyro' at Weinidogion Cymru, gan gynnwys datblygiad sy'n cael ei ystyried yn un a fyddai'n 'cael effaith niweidiol sylweddol ar weithrediad polisiau a chynigion y cynllun datblygu' (Atodiad 3 paragraff 3). Yn ogystal, mae'r cyfarwyddyd yn

tynnu'r gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol anfon copi o'r caniatâd at Weinidogion Cymru, lle rhoir caniatâd cynllunio i gais gwyro (Atodiad 3, paragraff 6).

26. Mae'r cyfarwyddyd yn cadw'r gofyniad i gyfeirio ceisiadau sy'n ymwneud â datblygiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd yng nghyswllt tri o'r categorïau newydd (sef datblygiadau 'Preswyl Sylweddol', 'Mwynau' a 'Gwastraff'). Fodd bynnag, mae'r gofyniad hwn yn amodol ar feini prawf penodol eraill. Ond, ni fydd diddymu'r ddarpariaeth i gyfeirio 'ceisiadau gwyro' yng Nghylchlythyr 39/92 yn effeithio ar allu unrhyw unigolyn na grŵp i ofyn am alw cais i mewn.
27. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cofnodi nifer y ceisiadau sy'n dod i law ac y gwneir penderfyniad yn eu cylch drwy ei system Adroddiadau Chwarterol Rheoli Datblygu. Mae manylion yr wybodaeth a gasglwyd yn cael eu hadolygu ac mae un o'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun peilot ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn nodi'r ceisiadau hynny a benderfynwyd yn groes i argymhelliad y swyddog achos. Bydd hyn yn cynorthwyo â'r gwaith o ganfod nifer y ceisiadau sy'n cael eu penderfynu yn groes i bolisïau'r cynllun datblygu, fel dewis arall yn lle'r gofynion hysbysu 'cais gwyro' y mae'r cylchlythyr hwn yn eu diddymu.

CYFLWYNO GWYBODAETH I WEINIDOGION CYMRU

28. Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cais cynllunio y mae angen ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, lle bo hysbysu'n ofynnol, a fydd yn eu galluogi i ddod i benderfyniad ynghylch galw'r cais i mewn ai peidio. Mae'r rhestr hon yn ymhelaethu ar y rhestr flaenorol yn Atodiad 3 Cylchlythyr 39/92 mewn ymateb i ofynion cyfredol cyflwyno ceisiadau cynllunio.
29. Cyflwynir dros 40% o geisiadau yng Nghymru yn electronig ac mae llawer o awdurdodau cynllunio lleol bellach yn arddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ar eu gwefannau. Er mwyn cynorthwyo â'r broses o gyflwyno ceisiadau i Weinidogion Cymru, ceir bellach ddarpariaeth ar gyfer anfon gwybodaeth yn electronig, neu ar ffurf copi caled.

CYFYNGU AR ROI CANIATÂD CYNLLUNIO

30. Lle mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, mae'r cyfarwyddyd yn gosod cyfyngiad ar roi caniatâd cynllunio am gyfnod o 21 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad yr hysbysir yr awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig gan Swyddogion Llywodraeth Cymru, sef y dyddiad y derbynnir yr wybodaeth sy'n ofynnol.
31. Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn cynnwys darpariaeth i'r awdurdod fynd ymlaen i benderfynu ar y cais cyn i'r cyfnod o 21 diwrnod ddod i ben, os cafwyd hysbysiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru yn dweud nad ydynt yn bwriadu galw'r cais i mewn, neu os nad ydynt o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad i'w hysbysu.

MONITRO AC ADOLYGU

32. Wrth symleiddio'r cyfarwyddyd newydd a gwneud y system yn fwy perthnasol i'r system gynllunio bresennol yng Nghymru, ni ragwelir y bydd nifer y ceisiadau a gaiff eu cyfeirio at Weinidogion Cymru yn cynyddu. Fodd bynnag, rhagwelir y

bydd dull gweithredu mwy cyson ymysg awdurdodau cynllunio lleol yng nghyswllt y broses cyfeirio ceisiadau. Wrth addasu'r meini prawf hysbysu fel hyn, rhagwelir y bydd cyfran uwch nag a welir ar hyn o bryd o'r ceisiadau hynny a gyfeirir yn codi materion o bwys mwy na phwys lleol. Serch hynny, nid yw'n dilyn, o anghenraid, y gelwir mwy o geisiadau i mewn, gan fod pob penderfyniad yn dibynnu ar amgylchiadau penodol bob achos.

33. Ni ragwelir y bydd y newidiadau hyn yn effeithio'n sylweddol ar y ceisiadau am alw ceisiadau i mewn. Ond, bydd modd cyfeirio ceisiadau nad yw bellach yn ofynnol eu cyfeirio dan y cyfarwyddyd newydd er ystyriaeth. Nid yw'r meini prawf a ddefnyddir i bennu a ddylid galw cais i mewn ai peidio wedi newid. Felly, byddai angen bodloni Gweinidogion Cymru o hyd bod y datblygiad arfaethedig yn codi materion o bwys mwy na phwys lleol i'r cais gael ei alw i mewn.
34. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y ceisiadau a gyfeirir at Weinidogion Cymru yn sgil y cyfarwyddyd newydd yn ofalus yn ogystal â nifer y ceisiadau sydd, o ganlyniad, yn cael eu galw i mewn. Adolygir ei effaith pan fydd y cyfarwyddyd newydd wedi bod ar waith am gyfnod priodol o amser. Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 27 uchod, mae'r gwaith o fonitro ceisiadau a benderfynir yn groes i argymhelliad y swyddog achos hefyd yn cael ei adolygu. Efallai y caiff ei gyflwyno fel rhan o'r system Adroddiadau Chwarterol Rheoli Datblygu.

Rosemary F Thomas

Prif Gynllunydd / Dirprwy Gyfarwyddwr

Prif Weithredwr:

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru

Y Swyddog Parc Cenedlaethol:

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (CYMRU) 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan erthyglau 18(1), 20 a 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(1), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

Cychwyn

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 30 Gorffennaf 2012.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn—

ystyr “ardal lle y gall fod perygl o lifogydd” (“*flood risk area*”) yw tir mewn ardal ym mharth llifogydd C2 sef rhannau o'r gorlifdir heb seilwaith sylweddol amddiffyn rhag llifogydd fel y'u dangosir ar y map cyngor datblygu rhyngweithiol a ddyroddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o bryd i'w gilydd;

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communication” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli'n gyffredinol)(2);

ystyr “datblygiad a all fod mewn perygl mawr” (“*highly vulnerable development*”) yw datblygiad sy'n ymwneud â mangreoedd preswyl (gan gynnwys gwestai a pharciau carafannau), adeiladau cyhoeddus megis ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden; datblygiad diwydiannol lle y byddai perygl i'r cyhoedd a'r amgylchedd dŵr pe bai llifogydd ar y safle megis gorsafoedd pŵer, safleoedd cemegol a llosgyddion; a safleoedd gwaredu gwastraff;

ystyr “datblygiad gwasanaethau brys” (“*emergency services development*”) yw datblygiad sy'n ymwneud â chyfleusterau y mae angen iddynt fod yn weithredol ac yn hygyrch bob amser gan gynnwys ysbytai, gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd yr heddlu, gorsafoedd gwylwyr y glannau, canolfannau rheoli, depos brys neu adeiladau a ddefnyddir i ddarparu lloches frys pan fo llifogydd;

ystyr “datblygiad gwastraff” (“*waste development*”) yw datblygiad—

- (a) y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn gollwng gwastraff i'r tir neu arno; a
- (b) nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli;

ystyr “datblygiad hysbysu” (“*notification development*”) yw—

- (a) datblygiad mewn ardal lle y gall fod perygl o lifogydd;
- (b) datblygiad preswyl sylweddol;
- (c) datblygiad mwynau;
- (d) datblygiad gwastraff;
- (e) datblygiad sy'n cynnwys codi agregau o safleoedd newydd neu safleoedd presennol mewn Parc Cenedlaethol(3) neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol(4);

(1) O.S. 2012/801.

(2) 2000 p.7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p.21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 iddi.

(3) Ar gyfer dynodiad parciau cenedlaethol yng Nghymru, gweler Rhan 2 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p.97).

(4) Ar gyfer dynodiad Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gweler Rhan 4 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37).

ystyr “datblygiad mewn ardal lle y gall fod perygl o lifogydd” (“*flood risk area development*”) yw—

- (a) datblygiad gwasanaethau brys; neu
- (b) datblygiad a all fod mewn perygl mawr, ac eithrio datblygiad preswyl lle y bwriedir darparu llai na 10 o anheddau;
yn y naill achos neu'r llall pan fo'r safle cyfan y bwriedir cyflawni'r datblygiad arno o fewn ardal lle y gall fod perygl o lifogydd;

ystyr “datblygiad mwynau” (“*minerals development*”) yw datblygiad—

- (a) sy'n cynnwys neu wedi ei ffurfio o gloddio am fwynau a'u gweithio;
- (b) sydd i'w gyflawni ar safle newydd neu estyniad i safle presennol; ac
- (c) nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli;

ystyr “datblygiad preswyl sylweddol” (“*significant residential development*”) yw datblygiad—

- (a) sy'n cynnwys mwy na 150 o anheddau neu sy'n ddatblygiad preswyl ar safle sy'n mesur mwy na 6 hecтар; a
- (b) nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli;

ystyr “gwastraff” (“*waste*”) yw unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r deiliad yn ei waredu neu'n bwriadu ei waredu neu y mae'n ofynnol iddo ei waredu.

Cymhwysio

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio—

- (a) mewn perthynas â thir yng Nghymru;
- (b) a wneir ar neu ar ôl 30 Gorffennaf 2012;
- (c) ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad hysbysu;
- (d) nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

Hysbysu Gweinidogion Cymru

4. Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad hysbysu, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

5. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

- (a) copi o'r cais (gan gynnwys copiâu o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;
- (b) copi o'r hysbysiad gofynnol;
- (c) copi o unrhyw sylwadau a wneir i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegir gan adran o'r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);
- (d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a baratoir gan unrhyw un o swyddogion yr awdurdod;
- (e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddir o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999(5);
- (f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhelir o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(6);

(5) O.S. 1999/293, y mae diwygiadau iddo.

- (g) datganiad o'r ystyriaethau perthnasol y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn dangos (os felly y mae hi) y dylid penderfynu ar gais am ddatblygiad preswyl sylweddol, datblygiad mwynau neu ddatblygiad gwastraff mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd mewn perthynas â'r ardal lle y mae safle'r cais wedi'i leoli.

Y cyfnod perthnasol cyn rhoi caniatâd ar gais gwyr

6. Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaniateir i'r awdurdod roi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

7. Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fynd ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod—


- (a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn cysylltiad â'r cais hwnnw; neu
- (b) nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad hysbysu.

Diddymu

8. Mae'r Cyfarwyddiadau canlynol wedi eu diddymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, ond maent yn parhau i fod yn gymwys o ran unrhyw gais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas â thir yng Nghymru a wneir cyn 30 Gorffennaf 2012—

- (a) Cylchlythyr 39/92: Cyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac Ymgynghori) 1992;
- (b) Cylchlythyr 61/93: Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Siopau) (Cymru a Lloegr) (Rhif 2) 1993.

Llofnodwyd drwy awdurdod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru



Rosemary Thomas
Prif Gynllunydd/Dirprwy Gyfarwyddwr
Yr Is-adran Gynllunio
Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Dyddiad 29/06/2012

(6) O.S. 2010/490, y mae diwygiadau iddo.